

# Y LLINYN ARIAN

Cylchgrawn Capel Salem, Caernarfon. Hydref 2023

## Gweddiau Diolchgarwch Cymorth Cristnogol

Dduw y creawdwr, rhoddwn ddiolch am ein daear a'i chynefinoedd amrywiol ac am brydferthwch daearol sy'n adlewyrchu dy ogoniant dwyfol

Cyffeswn y ffyrdd nad ydym wedi parchu y rhodd o'r ddaear;

Dadgoedwigo, colli rhywogaethau, yr argyfwng hinsawdd.

### **Dduw cariadus, symud ni tu hwnt i anobaith a tuag at weithredu.**

Dduw y cread, rhoddwn ddiolch am y pridd;

Am y bywyd y mae'n ei gynnal a'r digonedd mae'n ei gynhyrchu.

Cyffeswn y ffyrdd nad ydym wedi parchu'r rhodd o bridd;

Gor-ffermio, llygru drwy wastraff, gor-gloddio.

### **Dduw cariadus, symud ni tu hwnt i anobaith a tuag at weithredu.**

Dduw y cread, rhoddwn ddiolch am ddwr;

Am ei ffresni iachus yn diwallu ein syched.

Cyffeswn y ffyrdd nad ydym wedi parchu y rhodd o ddwr;

Llygru plastig, gor bysgota, gwenwyno cemegau.

### **Dduw cariadus, symud ni tu hwnt i anobaith a tuag at weithredu.**

Dduw y cread, rho ynom ysbryd edifeirwch er mwyn i ni weithredu i warchod, iachau a thrysori y ddaear, y pridd a dwr. AMEN

Iesu, rwyt yn ein galw i hau hadau heddwch ac i feithrin cyfiawnder

Iesu, rwyt yn ein galw i arwain drwy wasanaethu ac i annog gwyleidd-dra

Y breinin tlawd, cyfeiria ein camau.

Boed i ni weithredu yn hyderus yn ôl dy ewyllys

Er mwyn gwasanaethu'r rhai sydd heb rym,

Boed i ni weld dy deyrnas yn dod

Ym mlagur newydd a ffrywth aeddfed byd mwy cyfiawn

Boed i'r rhai sydd mewn grym arwain yn ôl dy esiampl di yn llawn tosturi ac an-hunanoldeb

Er mwyn Dy enw, Arglwydd Iesu. AMEN



## GAIR GAN Y GWEINIDOG

Cychwynnais ysgrifennu'r geiriau hyn pan oedd storm Agnes am sicrhau fy mod yn ymwybodol o'i phresenoldeb. Fe'n rhybuddiwyd ei bod ar y ffordd a dyna'r ysgogiad i mi roi rhaff dros y gasebo yn y gobaith na ddigwydd eto yr hyn ddigwyddodd adeg un o stormydd y gorffennol. Cofiaf ddeffro yn y bore yn dilyn y storm a gweld tô y gasebo ym mhen draw'r ardd. Pan oedd storm Agnes ar ei gwaethaf, geiriau fel pryder, gobaith a diolch oedd yn troi yn fy meddwl.

Pryder am y difrod all ddod yn sgil y stormydd; nid cyfeirio at dô'r gazebo ydw i - er mor ddiflas a thrafferthus fu'r gwaith o'i roi n'ol - ond meddwl am ef-faith trychinebus y stormydd hyn ar fywydau pobol. Cyn neu'n ystod y storm gobeithir na fydd ei effaith yn anioddefol, ac os felly bydd rhaid diolch.

Bydd yn fis Hydref pan ddarlennwch y geiriau hyn, sef mis y Diolchgarwch. Efallai bydd rhai ohonom yn rhyfeddu fod y mwyafrif o siopau'n barod wedi addurno gogyfer a'r Nadolig! Deallaf fod nifer o resymau am hyn, ond cyn i'r Dolig gael ei le, peidiwn anghofio'r Cynhaeaf. Bydd rhai'n cofio dathlu Gŵyl Diolchgarwch nid ar y Sul yn unig ond ar Ddydd Llun hefyd; y Dydd Llun wedi'r trydydd Sul o Hydref a elwid yn 'Ddydd Llun Pawb'. Nid yw'r arferiad wedi diflannu'n llwyr, gan fod rhai ardaloedd yn parhau i gynnal gwasanaethau ychwanegol yn y prynhawn neu'r hwyr ar y trydydd Llun.

Os yw Pryder, Gobaith a Diolch yn dod i'r meddwl adeg Storm Agnes, mae gan y tri le adeg Diolchgarwch. Ysgwn i a oes gan rai ohonoch yr un teimladau ag sydd gen i am y Diolchgarwch? Teimlo'n anghysurus wnaif bob amser am fod fy amgylchiadau mor wahanol i gynifer o drigolion y byd. **Pryderaf** drostynt o fyw mewn byd sydd mor anghyfartal. Pan fyddaf yn cwyno am y peth hwn a'r llall, clywaf lais yn dweud wrtha'i: "Paid mynd ar hyd y llwybyr yna, edrych o dy gwmpas, rho sylw i'r holl fendithion sydd gennynt, a chod dy olygon i sylwi ar y rhai sy'n llusgo byw"; prydera amdanynt.

Bydd y llais yn fy nhywys i **obeithio**. Gwelaf y gobaith yn y dorf fawr o wirfodolwyr yn lleol a thros y byd sy'n ymwybodol o angenion pobol eraill. Cofiw'n pennill: '*Nid oes dwylo gan Grist ond ein dwylo ni*

*I wneuthur ei waith yn awr.*

*Nid oes ganddo draed ond yr eiddom ni*

*I fynd ar ei neges fawr.*

Gyda'r gair diolch, a oes angen ein hatgoffa o eiriau y diweddar Arfon Williams. '*Bu bron i mi anghofio dweud diolch, am bopeth sy'n creu teimlad braf; Am flodau sy'n harddu y meysydd, a phatrwm pob iar fach yr haf; Am serern glir, am olau'r lloer, am heulwen braf ac eira oer*

*Bu bron im anghofio dweud Diolch am Iesu a ddaeth lawr i'n byd Yr holl waith a wnaeth tra bu yma, ar hyn mae'n ei wneuthur o hyd. Yn gwisgo'r noeth, yn helpu'r tlawd a'n dysgu fod pob dyn yn frawd. Bu bron im anghhofio dweud Diolch amdano Ef, rhodd fwyaf Duw Fe hoffwn o ddifrif dweud Diolch yn awr a phob dydd tra bwy byw.*

## HUNODD.

Ar 8ed o Orffennaf bu farw **Miss Nerys Jackson**, Caeau Bach, Yr Hendre ac ar 21ain o Orffennaf cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Salem a mynwent Eglwys Sant Baglan, Llanwnda. Ni ddymunai i weinidogion Salem gymryd rhan yn y gwasanaethau; ei dewis oedd y Parch John Pritchard, Llanberis.

Ni theimlai'r Parch John Pritchard yn gyfforddus â hyn, ac ar ddechrau'r gwasanaeth angladdol dywedodd; "Ond fe'm perswadwyd i ddod. Fydd y rhai ohonoch sy'n nabod y Parch J.Ronald Williams ddim yn synnu o ddeall mai fo a'm perswadiodd am ei fod, yn ei raslonrwydd yn mynnu bod rhaid parchu dymuniad Miss Jackson. Wedi trafod efo Ron, ac o wybod y byddai o a Mererid yma efo mi yn yr oedfa, mi gytunais i wneud y gwaith yma yn Salem, rhag bod unrhyw awgrym—pe byddai'r oedfa yn cael ei chynnal yn rhywle arall—bod hynny'n digwydd am fod yr eglwys na'i gweinidogion yn gyfrifol am hynny. Dwi dal i deimlo'n annifyr, ac yn gresyanu'n fawr fod Miss Jackson wedi mynegi'r fath ddymuniaid"

Fel rhan o'i deyrnged dywedodd : "Yma yn Salem, mi fu'n aelod ffyddlon, yn ddiacn, yn organydd ac yn weithgar yn yr Ysgol Sul a gwahanol weithgareddau'r eglwys. Bu'n ysgrifennydd yr eglwys am flynyddoedd. Roedd yn mawrygu'r gwahanol swyddi, yn ormodol o bosib gan fod yn rhy eiddigeddus o'r cyfrifoldebau. Bu'n ffyddlon i'r Cyfarfod Chwarter Gogledd Arfon; yn Gadeirydd iddo ddwywaith, yn 1994 a 2005; ac yn aelod o'i Bwyllgor Gwaith am flynyddoedd. Roedd ganddi ei barn bendant am wahanol bethau; ac roedd yn ddeddfol iawn ei ffordd. Yn y blynyddoedd diweddar doedd ei chlyw ddim cystal, a byddai'n aml mewn pwyllgor yn codi rhyw gwestiwn yr oedden ni wedi delio ag o ers meitin!

Mi fyddai'n mwynhau ei hymweliadau â chyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr a'r cyfnod a dreuliodd yn mynychu pwyllgorau Cyngor yr Undeb. Pan ddaeth Undeb yr Annibynwyr i'r Dre yn 2000, hi dalodd gostau argraffu'r Llawlyfr ar ei gyfer a chost y Bwffe yng Ngwesty'r Celt un noson, er cof am ei rhieni.

Mi fu hi hefyd yn ffyddlon i gyfarfodydd Cyngor Eglwysi'r Dre, a chafodd hyd yn oed ei hethol yn Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Gogledd Cymru, a dwi'n ei chofio'n traddodi anerchiad fel Llywydd yn un o gyfarfodydd cyflwyno Medalau Gee.

Tua phymtheng mlynedd yn ôl, mi wnaeth hi ddilyn cwrs hyfforddi a chael ei derbyn yn bregethwr cynorthwyol gan Gyfundeb Gogledd Arfon; a byddai wedyn yn arwain oedfaon mewn amryw o eglwysi'r ardal. Byddai'n paratoi'n fanwl, a'i harddull fyddai darllen bob gair yr oedd wedi ei baratoi. Mi fu'n fodryb falch a charedig, yn arbennig i'w nith, Carys a'i phlant, William, Ffion, Glyn a Delyth oedd yn byw yn lleol, nesa ati. Bu'n gefnogol iddynt fel teulu ac roedd yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau. Cydymdeimlwn â hwy ac a'i nai Dafydd a'i nithoedd Eira, Nia ac Ann a'u teuluoedd hwythau, yn Lerpwl a gogledd Lloegr. Roedd hi'n hen fodryb i 13 ac yn hen hen fodryb i 2. "

Ar 26ain o Orffennaf bu farw **Mrs Margaret Jane Hamilton**, Tý Gwynant, Bryn Rhos, Rhosbodrual. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng nghapel Libanus, Y Ganllwyd a mynwent Aberhosan ar y 14ed o Awst. Pan fydd person yn symud o un ardal i ardal arall, ac yn dymuno ymaelodi mewn capel neu eglwys, mae'r weithred yn siarad cyfrolau am y person. Dyna ddigwyddodd ddeng mlynedd n'ol mewn oedfa Gymun bore Sul 1af yn Mis Medi yn Salem. Y bore hwnnw derbyniwyd tri aelod newydd, ac yn eu plith 'roedd Mrs Hamilton. Sonia'r efengylau am aelwyd Bethania lle roedd Iesu wrth i fodd yn ymweld â hi. Aelwyd felly oedd ei haelwyd hithau. Roedd y croeso bob amser yn gynnes a'r sgwrs yn ddi-fyr. Byddai'n dod yn ei char bach ar fore Sul a phan newidiodd ei hamgylchiadau, dibynnai ar garedigrwydd yr aelodau i'w chludo. Trysorwn yr atgofion am berson hoffus, cyfeillgar, croesawgar a gwerthfawrogol ac fel un roddodd le i achos Iesu Grist yn ei bywyd. Cydymdeimlwn â holl aelodau'r teulu.

Ar 6ed o Awst bu farw **Mr Ronald Williams**, 35 Llys yr Eifl ac ar 22 Awst cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Salem a mynwent Llanbeblig. Yn 1982 daeth Mr Ronald a Mrs Megan Williams yn ofalwyr Capel Salem. Pan ddigwyddodd hyn gwnaed y sylw; "Byddwn siwr o weld llewyrch ar bethau yn Salem o hyn ymlaen gan fod y Gweinidog a'r gofalwr efo'r un enw! Dwn i ddim a welwyd hyn ond bu llawer o dynnu coes gan gymysgu'r gofalwr a'r Gweinidog! Bu'r ddaun yn ofalwyr yn Salem am dair blynedd ar ddeg. Pan ymddeolodd y ddau, wrth ddioch iddynt am eu gwasanaeth, cyflwynwyd lamp a rhodd ariannol iddynt. Gwerthfawrogwyd y gwaith da a chydwybodol wnaeth y ddau. 'Roedd Megan wedi mwynhau'r gwaith yn well na'i phriod gan y byddai ef yn dweud y drefn weithiau pan fydder plant yn gadael sbwriel yn y capel neu'r festri ond bydde Megan siwr o amddiffyn y plant!

Gyrrwr Bws Crosville oedd ei waith — swydd gyfrifol. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn ceir — a gwae unrhyw garej oedd wedi gwerthu car nad oedd yn iawn iddo! Roedd ei sgwrs yn ddiddorol bob amser a bu'n garedig iawn tuag at yr achos yn Salem. Yn anffodus dros y blynyddoedd diwethaf cyfyngwyd ar ei fywyd oherwydd salwch, ond er gwaetha'r amgylchiadau ymdrechodd yn galed iawn i ddal ati. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i fab Malcolm a Mandi ei briod a holl aelodau'r teulu.

## Meddyliwn am y rhai sydd wedi COLLI PERTHYNAS AGOS

Mrs Hilda Roberts yn marwolaeth ei merch Mari.

Mr Gwilym a Nest Pritchard ym marwolaeth brawd Gwilym.

Mr Alun a Mrs Haf Jones ym marwolaeth brawd yng nghyfraith Alun.

Mrs Angharad Lloyd Williams ym marwolaeth ei thad yng nghyfraith.

Meddyliwn am eraill yn yr eglwys sydd wedi colli ffrindiau agos a pherthnasau; Mr

Elwyn a Mrs Lallie Griths, Mrs Margaret Bryant a Ms Viera Owen.

## MEDDYLIWN AM Y RHAI A FU MEWN YSBYTY

Mr George Jones,  
Mrs Rhiannon Roberts,  
Mr Rhys Prytherch  
Mrs Catrin Robers  
Mrs Grace Dawson  
Miss Bethan Parry

Mrs Jane Wilding,  
Mrs Pat Parry  
Mr John Grisdale  
Mr Sion Humphreys  
Mrs Wendy Jones

'Gwn am y llaw a all fy nghynnal I'. John Roberts. (C Ff 758)

Meddyliwn am ein haelodau sydd **MEWN CARTREFI PRESWYL**

Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.

Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.

Cartref Bryn Rhos, Brynsiencyn : Mr Derwyn Roberts

Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i chi ac i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref.

## LLONGYFARCHIADAU i

Maon a Prysor, Tý'n y Maes. Llanwnda ar enedigaeth Teleri Fflur Aled, chwaer fach i Gwawr Elena a Tirion Prys, heb anghofio taid a nain Bethel Wynne ac Enid Williams.

I'r gweinidog Ron a Rhian Williams ar ddathlu eu priodas Aur.

I Sioned Wyn Evans a Eifion Davies, Bryn Dedwydd, Ffordd Cwstenin ar eu priodas yn Nantgwrtheyrn ar y 7ed o Hydref.

## BEDYDDIADAU

### Y Goron Driphlyg !

Cafwyd digwyddiad hapus bore Sul 7 Mai pan fedyddiwyd tri baban! Bendithiwyd teulu Carys Owen (Nain) gyda 3 baban newydd y llynedd gan i bob un o'i meibion a'u gwragedd gael plentyn newydd! Yn gyntaf ganwyd Osian Llwyd Owen i Rhodri a Bethan, brawd bach i Alys, yna ganwyd Nedw Gwyn Owen i Dylan a Sioned, brawd bach i Greta ac yn olaf ganwyd Elsi Jen Wyn Owen i Carwyn a Manon, chwaer fach i'r efeilliaid Ifan a Gwen ac i Tomos. Fe'u bedyddiwyd gan y Gweinidog Parch J.RonWilliams



Yng ngwasanaeth y teulu bore Sul 7 Mehefin bedyddiwyd **Gruffydd Dewi Parry** mab Cara a David Parry, 7 Gwel y Bugail, Deiniolen. Bore arbennig yn hanes y teulu a'r eglwys.

## CROESAWU AELOAU NEWYDD.

Yng ngwasanaeth y Cymun bore Sul 9ed o Ebrill derbyniwyd Sioned Wyn Evans, Bryn Dedwydd, Ffordd Cwstenin, a'i merch Alaw Elenid o gapel y Tabernacl Tolgellau. Yng

ngwasanaeth y Cymun bore Sul 3 Medi derbyniwyd Mrs Irene Thomas Swyn y Wylan, 8 Ala Las, Caernarfon o gapel Saron, Llanwnda. 'Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist derbyniwn Sioned ac Irene i gymdeithas eglwys Salem ac fel arwydd o hyn estynnwn i chwi ddeheulaw cymdeithas. Bendithied yr Arglwydd chwi gan obeithio y byddant yn hapus yng nghymdeithas yr eglwys.'

## SUL DIOLCHGARWCH : 15HYDREF 2023

Ar y Sul, bydd cyfle i'r plant /ieuentid ddod â ffrwythau neu flodau i'r oedfa. Fe'u rhennir i aelodau hyn y capel a'r rhai sydd mewn cartrefi gofal. Bydd cyfle hefyd i dderbyn y bocs 'Pringles' i gasglu darnau 5, 10 neu 20 ceiniog. **Bydd arian y blychau'n mynd i Apel FFYNHONNAU BYW; Apel Cymorth Cristnogol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2023-24. Bydd yr arian yn mynd i COLOMBIA.** Yn ystod y flwyddyn gwneir casgliad arbennig at yr Apel drwy amlen a gwahoddir unrhyw un sy'n awyddus i drefnu gweithgarwch tuag at yr Apel.



## Ysgol Sul a Clwb Ieuentid

Cynhelir yr Ysgol Sul ar fore Sul gan gychwyn yn yr oedfa am 10 o'r gloch. Os gwyddoch am unrhyw blentyn fyddai'n hoffi ymuno efo'r Ysgol Sul yn Salem, cofiwch ddweud fod croeso mawr i unrhyw un!

Cynhelir y Clwb Ieuentid yn fisol ar Nos Fercher 6-7:30. Mae'r Clwb ar agor i unrhyw un Bl 6+. Trefnir y clwb ar y cyd gyda Seilo ond mae ar agor i unrhyw berson ifanc. Bydd Clwb ar 18/10 a 29/11.



## SUL DIOLCHGARWCH : 15HYDREF 2023

### CASGLIAD DIOLCHGARWCH.

Yn ogystal ag offrrwm wythnosol, **gwneir dau gasgliad arbennig yn Salem** bob blwyddyn sef Casgliad y Gwellianniau ym Mis Mai a Chasgliad Diolchgarwch yn mis Hydref. **Gan fod gwariant sylweddol yn ein wynebu gyda'r Capel a'r Tŷ Capel, apelir am ymdrech arbennig i ddyblu'r Casgliad Diolchgarwch eleni. Cyfanswm y casgliad yn 2022 oedd £1720. I'n cynorthwyo gyda'r gost ar yr adeiladau, gwneir cais i wahanol ffynhonnellau grantiau a benthyciadau. Un amod pob cais yw y disgwylir i'r capel wneud ymdrech i godi arian. Nid oes unrhyw ffynhonnellau grant yn rhoi 100% o'r hyn sydd angen. A oes modd dyblu casgliad y Diolchgarwch eleni? Mae perthyn i unrhyw fudiad yn golygu cefnogi, cyfrannu a chynorthwyo'r mudiad hwnnw. Mae'r un peth yn wir am berthyn i Eglwys Iesu Grist.**

Y ffordd hwylusaf i gyfrannu at Gasgliad y DIOLCHGARWCH eleni (neu unrhyw gasgliad arall) yw drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Côd y Banc i'w dalu 40-16-02**

**Rhif y cyfrif i'w dalu 70724556.**

**Enw'r Cyfri: Salem Congregational Chapel**

**COFIWCH** roi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda. Mae hefyd yn bosib i anfon **siec** i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfán, 22 Llys Meirion, Caernarfon LL55 1LE neu defnyddio **amlen** gan roi eich manylion.


**Apeliwn i bob aelod ymateb i'r Apel eleni**

### HAFAN

Mae Hafan yn brosiect yn y dref dan adain Cyngor Eglwysy'r Dref. *Bydd Hafan yn brosiect sydd yn cynnig amser, pob wythnos, i bobl ddod i ymdawelu, i fyfyrío, i oleuo cannwyll, i ddod o hyd i ryw dawelwch o brysurdeb bywyd, i gael clust i wrando, i gael cwmni falle. Bydd Hafan ar agor pob prynhawn Dydd Mawrth rhwng 12.30 a 2.30 yng Nghapel y Maes. Bydd criw bach yn gwirfoddoli i eistedd yn y capel a croesawu unrhyw un sy'n dod i fewn. Os ydych yn awyddus i wirfoddoli, cysylltwch efo Mererid; nid yw'n ymrwymiad mawr—rhyw un prynhawn bob 6-8 wythnos.*

### TARO MEWN

*Mae Taro Mewn yn parhau i gyfarfod am 10:30 bob bore Mawrth yn y festri. Mae'n gyfle am gwmni a sgwrs gyda Munud i Feddwl am 11. Os nad ydych wedi bod o'r blaen—peidiwch a bod yn swil—dewch draw!*



## Rheilings Capel Salem



Cofiwch am gais pwyllgor adeiladau Salem am help gyda paentio'r rhain. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda iawn Mae'r gwaith caeld o lanhau a stripio'r hen baent wedi gorffen a'r got gyntaf wedi ei rhoi ac yn barod i'r ail. Bydd gorffen y gwaith cyn Dolig yn gamp oherwydd fod Ifan y glaw yn heriol ar hyn o bryd! Os fedrwch helpu rhwch wybod. Gwerthfawrogi pob cymorth.

### Rhannu gwybodaeth a chyfle i ymateb.

Bore Sul cyntaf o fis Hydref rhannwyd gyda'r gynulleidfa:

### 1.ADEILADAU

Hysbyswyd yr aelodau fod gwariant sylweddol yn gwynebu'r eglwys efo adeilad y capel a'r Tŷ capel. I gyfarfod a'r gost gwneir cais am grantiau. Cymer hyn fisoedd. Adroddir yn ôl pan gawn ateb.

### 2. CYMDEITHASU

Cafodd yr aelodau gyfle i ymateb o blaid:

1 Cynnal CYMDEITHAS unwaith y mis neu

2. Cynnal cyfarfodydd adeg Diolchgarwch, Nadolig, Gŵyl Ddewi a'r Haf Os yn awyddus am un o'r uchod pa noson? Hefyd byddwn angen rhai i drefu gweithgareddau a.y.y.b. Os ydych yn barod rhwch wybod i un o'r Gweinidogion.

### 3. OEDFA PRYNHAWN/NOS SUL

Trafodwyd hefyd a oedd yr aelodau yn awyddus i gael oedfa p'nawn/nos |Sul? Eto rhwch wybod i un o'r Gweinidogion.

\*\*\*\*\*


## Wythnos o Weithredu Rhyngwladol

**Galwn ar ddinasyddion ymhob gwlad i ymuno efo ni mewn wythnos o weithredu rhyngwladol (Sadwrn Medi 30 – Sul Hydref 8fed) gan alw am gadoediad a thrafodaethau heddwch ar unwaith i ddod â rhyfel WCRAIN i ben.**

**DATGANIAD O'R UWCHGYNHADLEDD DROS HEDDWCH YN WCRAIN (Vienna Mehefin 2023)**

Heddwch trwy ddulliau heddychlon. Cadoediad a thrafodaethau rwan! Mwy o fanylion ar Safwe Salem.

**SAFWE CAPEL SALEM : [www.capelsalemcaernarfon.com](http://www.capelsalemcaernarfon.com)**



## Wythnos o Weithredu Rhyngwladol

**Galwn ar ddinasyddion ymhob gwlad i ymuno efo ni mewn wythnos o weithredu rhyngwladol (Sadwrn Medi 30 – Sul Hydref 8fed) gan alw am gadoediad a thrafodaethau heddwch ar unwaith i ddod â'r rhyfel hwn i ben.  
DATGANIAD O'R UWCHGYNHADLEDD DROS HEDDWCH YN WCRAIN**

Heddwch trwy ddulliau heddychlon. Cadoediad a thrafodaethau rwan!  
Rydym ni, drefnwyr yr Uwchgynhadledd dros Heddwch yn Wcrain yn galw ar arweinwyr ym mhob gwlad i weithredu i gefnogi cadoediad a thrafodaethau ar unwaith i ddod â'r rhyfel yn Wcrain i ben.

Yr ydym yn glymblaid eang ac amrywiol o ran gwleidyddiaeth sy'n cynrychioli mudiadau heddwch a chymdeithas ddinesig, gan gynnwys pobl ffydd mewn sawl gwlad. Yr ydym yn gwbl unedig yn ein cred bod rhyfel yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth ac nad oes unrhyw ddatrysiad milwrol i'r argyfwng presennol.

Yr ydym wedi'n dychryn a'n tristhau gan y rhyfel. Mae cannoedd o filoedd wedi eu lladd a'u hanafu a miliynnau wedi eu dadleoli ac yn dioddef trawma. Mae dinasoedd a phentrefi ar draws Wcrain a'r amgylchedd naturiol wedi cael eu chwalu.

Gall marwolaeth a dioddefaint llawer mwy ddigwydd petai'r gwrthdaro'n gwaethgu i ddefnyddio arfau niwclear, risg sy'n uwch heddiw nag ar unrhyw gyfnod ers argyfwng taflegrau Cuba.

Rydym yn condemnio goresgyniad anghyfreithlon Rwsia o Wcrain. Nid yw'r sefydliadau a grewyd i sicrhau heddwch a diogelwch yn Ewrop wedi gweithio ac mae methiant diplomyddiaeth wedi arwain at ryfel. Mae angen brys am ddiplomyddiaeth rwan i ddod â'r rhyfel i ben cyn iddo ddinistrio Wcrain a bygwth y ddynoliaeth.

Rhaid i'r llwybr at heddwch gael ei sefydlu ar egwyddorion diogelwch cyffredin, parch at hawliau dynol rhyngwladol a'r hawl i bob cymued i wneud eu penderfyniad eu hunain.

Rydym yn cefnogi pob trafodaeth sy'n sefyll dros resymeg heddwch yn hytrach nag afresymeg rhyfel.

Rydym yn cadarnhau ein cefnogaeth i drigolion Wcrain sy'n amddiffyn eu hawliau. Rydym yn ymrwymo ein hunain i gryfhau'r ddeialog efo'r rhai yn Rwsia a Belarws sy'n rhoi eu bywydau dan fygythiad drwy wrthsefyll rhyfel ac amddiffyn democratiaeth.

### **Vienna, Mehefin 11eg 2023**

Rhaid i ni gyd wneud ein rhan, er mwyn i ni fod yn foddion i greu heddwch.”

Albert Einstein

## GWEDDI -HEDDWCH

**O gwrando'n gweddi, Iesu da  
dros fyd rhyfelgar, trugarha  
rho heddwch gwir yng nghalon dyn  
i geisio'r ffordd i fyw'n gytun**

**O atal di arweinwyr gwlad  
yr uchel saff a'r balch eu stad  
rhag anfon syml werinwr tlawd  
i golli'i waed wrth ladd ei frawd**

**Rho gariad yng nghalonau gwyr  
bentyrra'r myrdd daflegrau dur  
i'w taflu draw dros hanner byd  
ar filoedd o eneidiau drud**

**O dirion Dad, na ad i ni  
heb obaith redeg gyda'r lli  
ac esgeuluso gwneud ein rhan  
dros drefn a heddwch ymhob man**

**Rho inni boen o arwain byd  
o'i ryfelgarwch maith i gyd  
cans nid oes ddewis perffaith hedd  
i neb sy'n byw yng nghysgod cledd.**

**Arthur D Jones, Llanuwchllyn**